
| *Rhif: **30*** | *Enw'r Ardal o Gymeriad Morwedd:* | **Dyfroedd alltraeth deheuol** |
|---|---|---|




**ACM30:Dyfroedd alltraeth deheuol**



*Golygfa dros y môr tuag at y gorwel fel y'i gwelir o Bentir Sant Gofan (yn SCA35) tu hwnt i SCA29*



*Golygfa dros y môr tuag at y gorwel fel y'i gwelir o Bentir Lydstep, tu hwnt i SCA37*

| Disgrifiad Cryno |
|---|
| Mae'r ardal helaeth iawn hon yn ymestyn oddiar arfordir y de o Ynys Bŷr yn y dwyrain, ac yn ymestyn i'r de a'r gorllewin hyd at 42km oddiar yr arfordir. Gan fwyaf, mae'n gymhedrol ddwfn. Mae'r ardal ddwyreiniol yn ffurfio gosodiad Ynys Bŷr ac mae'r ardal yn brysurach oherwydd ei bod ar gyrion Aberdaugleddau i'r gorllewin, yn ogystal ag o gwmpas Ynys Bŷr, sy'n cael ei ddefnyddio gan forwyr hamdden. Mae'r ardal yn ffurfio rhan allanol maes tanio'r Weinyddiaeth Amddiffyn yng Nghastellmartin. |
| **Nodweddion Allweddol** |
| • Ardal helaeth iawn o fôr, 30-100m o ddyfnder ar wely môr o dywod graeanaidd o don straen isel.<br>• Mae nifer o longddrylliadau yn yr ardal.<br>• Mae rhan fach yn ACA Forol Sir Benfro.<br>• Defnyddir yr ardal at bysgota, a gan fferïau a llongau masnachol.<br>• Byddai tir yn weladwy yn y dwyrain ac yn ffurfio rhan o'r olygfa nas difethwyd a welir o'r arfordir deheuol, gan gynnwys Llwybr Arfordir Sir Benfro.<br>• Ardal o fôr agored o gymeriad morol syml, cyson ac unedig nas difethwyd ar raddfa eang iawn, gydag ymdeimlad arwyddocaol o fod yn agored, yn unig ac yn noeth.<br>• Mae nodweddion yr ardal yn cael eu pennu bron yn gyfangwbl gan rymoedd naturiol dŵr, drwy ymchwydd y môr a'r tonnau a'r gwynt. |
| **Dylanwadau Ffisegol** |
| Dŵr o ddyfnder cymhedrol neu ddwfn (30 -100m), gwely môr yn amrywio o raean tywodlyd i raean, yn gogwyddo'n raddol (<1º) i'r de orllewin, gyda'r moroedd yn agored i don straen isel. Mae'r cerhyntau llanwol yn llifo o'r dwyrain i'r gorllewin. Mae gwaddodion gwely'r môr yn gorchuddio creigwely o dywodfeini a cherrig llaid Paleosöig Uchaf yn streicio'n ddwyreiniol – orllewinol, wedi'u gorchuddio gan gerrig llaid, creighalen a thywodfaen Triasig a Jurasig, a dorrir gan lawer ffawt dwyreiniol – gorllewinol.<br><br>Mae SACau Sir Benfro Forol a Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd yn ymestyn i ymylon gogleddol yr ardal. |
| **Dylanwadau Diwylliannol** |
| Mae'r ardal yn ffurfio rhan o lwybr môr y Môr Hafren ac felly'n rhan o fôr-lwybrau De Cymru, Cernyw a Dyfnaint a Chanolbarth Gorllewinol Lloegr. Recordiwyd llonddrylliadau niferus yn yr ardal, ac mae hynny'n arwydd o'i ddefnydd hanesyddol a milwrol. Mae'r llongddrylliadau'n cynnwys llawer a suddwyd ar gyrion Aberdaugleddau yn ystod adegau rhyfel gan gynnwys y Lord Derby a'r Renfrew (a suddwyd gan dorpidos, y gyntaf yn 1917 a'r ail yn 1918), yr Agnes (1916), y Georgious Markettos (1917), y Wiley Sike (1918), a HMS Select (1918). Suddodd y Clapham (1943) a'r Maplefield (1945) o ganlyniad i wrthdrawiadau unigol. Mae'r Seafarer (1983) yn esiampl mwy diweddar o longddrylliad.<br><br>Defnyddir y dyfroedd hyn gan longau masnachol ac mae'r lefel o weithgaredd yn cynyddu'n sylweddol yn agosach at gyrion Dyfrffordd y Dddau Gleddau. Mae llongau criwsio modur a hwylio yn mentro i'r môr am y diwrnod ac mae 'na lwybrau criwsio hamdden i longau hwylio, sy'n profi defnydd trwm ar draws yr ardal, yn cysylltu Aberdaugleddau gyda mannau i'r dwyrain, megis Dinbych y Pysgod ac arfordir gogleddol Dyfnaint a Chernyw.<br><br>Mae'r pysgota yn cynnwys rhwydi gosod gyda'r lan i'r dwyrain, lein ddrifftio dros y rhan fwyaf o'r ardal, treillio estyllod rhwydi ysgafn, a threillio trawst a 'hopiwr creigiau' ar y môr. Mae'r ardal yn rhan fawr o feysydd tanio/ardaloedd ymarfer milwrol morol Castellmartin a Maenor |

| |
|---|
| Bŷr.<br><br>Mae Ardal Prydles Ynni'r Tonnau wedi'i lleoli o fewn yr Ardal Cymeriad Morwedd. |
| **Nodweddion esthedig, canfyddiadol a phrofiadol** |
| Ni ymwelwyd â'r ardal hon. Mae'r ardal yn ymestyn o lai nag 1km o'r arfordir i'r de o Ynys Bŷr hyd at tua 42km o'r arfordir. Y disgwyl yw y byddai ystod o ddylanwadau ar yr arfordir. Byddai'r cribau uwch i'r gorllewin o Ddinbych y Pysgod a chlogwyni yn amlwg fel elfennau cryfion yn llywodraethu ar yr olygfa ar bwyntiau i'r gogledd ddwyrain gan leihau i linell denau ar y gorwel a fyddai i'w weld ond mewn gwelededd da, i ddim golwg o gwbl o'r tir ar bellter o 42km oherwydd uchder y clogwyni a'r tir-ffurfiau agosaf. Yr ymdeimlad yn yr ardal byddai un o fôr agored ymhell o ddylanwad y tir, yn hytrach na'r cysylltiad gweledol hyn.<br><br>Ni ymwelwyd â'r ardal hon. Mae'r ardal rhwng 1km a tua 22km oddiar yr arfordir. Y disgwyl yw y byddai ystod o ddylanwadau ar yr arfordir. Byddai bryniau uwch megis Carn Llidi a chlogwyni yn amlwg fel elfennau cryfion o'r tirlun, yn tremio ar yr olygfa mewn mannau ond yn lleihau i elfennau bach neu linell denau iawn ar y gorwel ac yn weladwy dim ond mewn gweledydd da. Yn y mwyafrif o'r ardal byddai dyn yn cael yr argraff o fôr agored ymhell o ddylanwad y tir, yn hytrach na'r cysylltiad gweledol hyn.<br><br>Mae i'r ardal cymeriad syml, cyson ac unedig ar raddfa eang iawn, gydag ymdeimlad arwyddocaol o fod yn agored, yn unig a noeth. Mae ei ansoddau yn cael eu pennu bron yn gyfangwbl gan rymoedd naturiol dŵr, drwy ymchwydd y môr a'r tonnau a'r gwynt. Mae'r ardal yn agored i wyntoedd de-orllewinol ac ar adeg tywydd garw mae'r môr yn debyg o deimlo'n fygythiol. Mae na debygolrwydd cryf o dawelwch ac ymdeimlad o wylltineb a phellenigrwydd yn y môr agored hwn.<br><br>Ymhellach o'r arfordir bydd y nifer o longau hamdden yn gyfyngedig, ond bydd ambell i gipolwg o fferi a llongau masnach yn defnyddio'r llwybrau môr. |
| **Buddion a gwasanaethau diwylliannol** |
| Mae'r ardal yn cyfrannu at wasanaethau hamdden ac adloniant ar ffurf adloniant morol, ar ffurf ardal forol o fôr nas difethwyd sy'n weladwy o arfordiroeddd sensitif y Parc Cenedlaethol, ac at wasanaethau diwylliannol ac ysbrydol o ran yr ymdeimlad o wylltineb ac bod yn un â byd natur. |

| **Grymoedd am Newid** | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Crynodeb** | | **Grymoedd alleddol am newid** | | | | | | | |
| Mae'r grymoedd sy'n peri newid yn gyfyngedig yn y mannau morol dyfnach.<br><br>Gallai presenoldeb tanceri gael effeithiau andwyol a allai gynyddu wrth bod y traffig yn cynyddu e.e. LNG<br><br>Gallai defnyddio Ardal Prydles Ynni'r Tonnau newid | **Nodweddion Arbennig** | Prosesau naturiol/ newid yn yr hinsawdd | Pwysau o ymwelwyr | Defnydd morol- masnachol a physgota | Egni ar y môr | Pwysau datblygiadau | Newid mwen rheolaeth tir | Defnydd gan y Weinyddiaeth Amddiffyn |
| | Ysblander yr arfordir | | | (shaded) | | | | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| cymeriad yr ardal pe bai'n cael ei datblygu. | Ynysoedd | | | | | | | |
| | Amrywiaeth yn y tirlun | | | | | | | |
| | Pellter, llonyddwch ac Ardal Wyllt | | | | | | | |
| | Daeareg Amrywiol | | | | | | | |
| | Cyfoeth o Gynefinoedd a Bioamrywiaeth | | | | | | | |
| | Cyfoeth o Archaeoleg | | | | | | | |
| | Cymeriad Nodweddiadol yr Aneddiad | | | | | | | |
| | Treftadaeth Ddiwylliannol | | | | | | | |
| | Mynediad at y Parc | | | | | | | |
| | Lle i Anadlu | | | | | | | |
| | **Allwedd** | | Newid i'r ardal sy'n effeithio ar y nodwedd arbennig ddewisol | | | | | |

## Sensitifeddau Allweddol

Mae rhan fach yn ACA Forol Sir Benfro.

Byddai'r tir yn amlwg yn y dwyrain ac yn ffurfio rhan o'r olygfa nas difethwyd o'r arfordir deheuol, gan gynnwys yr olygfa o lwybr Arfordir Sir Benfro.

Ardal o fôr agored o gymeriad morol syml, cyson ac unedig nas difethwyd ar raddfa eang iawn, gydag ymdeimlad arwyddocaol o fod yn agored, yn unig ac o bellter.

Presenoldeb llongau masnachol

Defnydd gan y Weinyddiaeth Amddiffyn.